Y Pwyllgor Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad: Mai 2010

Annwyl Syr / Madam

**Adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad – galw am dystiolaeth**

Mae Pwyllgor Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwahodd tystiolaeth i lywio ei Adolygiad o Reolau Sefydlog. Y dyddiad cau yw 23 Gorffennaf 2010.

Mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad wedi cytuno y bydd yn cynnal adolygiad o Reolau Sefydlog. Ein nod yw cytuno ar y Rheolau Sefydlog diwygiedig cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu adeg etholiad y Cynulliad ym mis Mai y flwyddyn nesaf, fel eu bod ar waith i arwain trafodion y Cynulliad nesaf.

Bydd yr adolygiad yn ystyried newid y Rheolau Sefydlog er mwyn:

- gwella eglurder y Rheolau Sefydlog;

- eu gwneud yn gyson â'r confensiynau a'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u derbyn yn y Trydydd Cynulliad;

- caniatáu arloesi neu wella.

Gweler Atodiad A am ragor o wybodaeth gefndir am Reolau Sefydlog a rôl y Pwyllgor.

## Yr egwyddorion cyffredinol sy'n sail i drafodion y Cynulliad

Mae'r Pwyllgor Busnes yn credu y dylai'r adolygiad o Reolau Sefydlog gael ei bennu yng ngoleuni'r egwyddorion a ganlyn:

Dylai gweithdrefnau'r Cynulliad hwyluso trefniadau sydd o fudd i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd a'i alluogi i gyflawni ei swyddogaethau statudol a chyfansoddiadol fel y corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Dylent:

- ganiatáu i'r Cynulliad ystyried unrhyw fater sy'n berthnasol i Gymru neu'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun;
- rhoi cyfle i'r Llywodraeth wneud busnes, yn amodol ar waith craffu digonol a phriodol, a chymeradwyaeth gan y Cynulliad;
- rhoi cyfle i'r gwrthbleidiau, y pwyllgorau, Comisiwn y Cynulliad, ac Aelodau unigol gychwyn busnes a dylanwadu arno;
- rhoi cyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â gwaith y Cynulliad;
- bod yn addas ar gyfer unrhyw fodel o lywodraeth – lleiafrifol, mwyafrif, neu glymblaid;
- bod mor hyblyg a dealladwy â phosibl, ac wedi'u hategu gan gynsail a chonfensiwn.

## Galw am dystiolaeth – sut y gallwch helpu

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i wybod a yw ffordd y Cynulliad o weithio yn rhoi hyder i chi ei fod yn hygyrch ac yn effeithiol wrth gyflawni ei swyddogaethau, sef:

- dwyn y Llywodraeth i gyfrif;

- deddfu; a

- chynrychioli pobl Cymru.

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar:

- yr egwyddorion cyffredinol uchod a fydd yn sail ar gyfer yr adolygiad;

- sut y gellir gwella trafodion a rheolau'r Cynulliad er mwyn adlewyrchu'r egwyddorion;

- newidiadau a fyddai, yn eich tyb chi, yn gwella darpariaethau arbennig yn y Rheolau Sefydlog.

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn trafod ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad yn ystod tymor yr hydref. Lle bydd sylwadau yn ymwneud â ffyrdd y Cynulliad o weithio yn gyffredinol, byddwn hefyd yn dod â hwy at sylw Pwyllgorau eraill y Cynulliad neu swyddogion.

Gweler Atodiad B i gael manylion am sut i gyflwyno tystiolaeth. Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch ag Anna Daniel, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr, ar 029 2089 8144 neu Llinos Madeley, Clerc Gweithdrefnau, ar 029 2089 8403.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

**Y Gwir Anrh yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd**
**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**

**Atodiad A**

**Beth yw Rheolau Sefydlog?**

Mae'r Rheolau Sefydlog yn amlinellu rheolau gweithdrefn y Cynulliad. Maent yn un o ofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n arferol i Gynulliad, Senedd neu gorff etholedig arall gael gweithdrefnau o'r fath i reoli eu trafodion.

Mae ein Rheolau Sefydlog yn ymdrin â phob agwedd ar drafodion y Cynulliad, er enghraifft: sut y caiff y Llywydd a'r Prif Weinidog eu hethol, trefn busnes y Cyfarfod Llawn; y broses ddeddfu; a sut y mae Aelodau'n cyflawni eu rôl drwy graffu mewn Pwyllgorau.

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am wneud a diwygio ei Rheolau Sefydlog ei hun. Mae Rheolau Sefydlog y Trydydd Cynulliad ar gael yma: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-guidance.htm

**Beth yw rôl y Pwyllgor Busnes?**

Mae'r Pwyllgor Busnes yn trafod sut y caiff busnes y Cynulliad ei reoli a'i arferion a'i gweithdrefnau yn gyffredinol. Mae Rheol Sefydlog 11 yn rhoi manylion llawn am gylch gwaith y Pwyllgor.

Y Llywydd sy'n cadeirio'r cyfarfodydd, ac mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a Rheolwr Busnes o bob plaid sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad yn bresennol.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am wneud cynigion i ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog. Mae'r Cynulliad yn pleidleisio ar y cynigion hyn yn y Cyfarfod Llawn. Rhaid i'r cynnig gael ei gefnogi gan o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio er mwyn cytuno ar y newidiadau. (Rheol Sefydlog 35).

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor ar gael yma: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-other-committees/bus-committees-third-bc-home/bus-committees-third-bc-comm.htm

**Pam bod y Pwyllgor yn adolygu'r Rheolau Sefydlog?**

Cytunwyd ar y Rheolau Sefydlog presennol ar ddiwedd yr Ail Gynulliad, i weithredu darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Darparodd y rhain ar gyfer gwahanu ffurfiol rhwng y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, a rhoi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad. Arweiniodd hyn at newid sylweddol i'n Rheolau Sefydlog o'i gymharu â'r rhai oedd ar waith yn ystod yr Ail Gynulliad.

Mae'r Rheolau Sefydlog bellach wedi cael eu profi yn ystod y Trydydd Cynulliad. Ni chafwyd unrhyw broblemau arwyddocaol, a dim ond ychydig o newidiadau a wnaed iddynt gan y Cynulliad ers 2007.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno bod sawl ffactor yn dangos yr angen i Reolau Sefydlog gael eu hadolygu rhwng nawr a diwedd y Cynulliad hwn:

- byddai gwelliannau "technegol" yn gwella eglurder y Rheolau Sefydlog mewn rhai meysydd;

- mewn meysydd eraill, mae arferion gweithio wedi symud o'r Rheolau Sefydlog ac wedi datblygu'n gonfensiwn sy'n cael ei dderbyn;

- gellid hefyd ystyried newidiadau i ganiatáu ar gyfer arloesi neu wella.

**Atodiad B**

Os ydych yn dymuno cyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig at RheolauSefydlog@cymru.gsi.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad – Adolygiad o Reolau Sefydlog* fel teitl yr e-bost.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:
Llinos Madeley, Clerc Gweithdrefnau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai tystiolaeth ddod i law erbyn 23 Gorffennaf 2010.** Efallai na allwn ystyried ymatebion a dderbyniwn ar ôl y dyddiad hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynulliad ar gael ar ein gwefan: http://www.cynulliadcymru.org/abthome.htm

Pan fyddwch yn paratoi eich tystiolaeth, ystyriwch y canlynol:
- defnyddiwch y teitl a nodir uchod ar gyfer eich ymateb;
- mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn i'r cyhoedd graffu arnynt ac fel y gallant gael eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd Pwyllgor;
- **os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth.** Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol na all y Pwyllgor efallai roi gymaint o bwys wrth ystyried y dystiolaeth. Dylech fod yn ymwybodol hefyd y gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth gan gynnwys gwybodaeth cwmni, a roddir gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a hynny yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. O gofio hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio pam rydych am i'r wybodaeth fod yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu gwybodaeth byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn eich sicrhau y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ym mhob achos;
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor yr hydref.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â Llinos Madeley, Clerc Gweithdrefnau, ar 029 2089 8403.